

Cynllun Iaith Gymraeg Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

**Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg
am y flwyddyn 2017–18**

Cynnwys

| | |
|------------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Cefndir | 4 |
| 3. Recriwtio | 5 |
| 4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg | 7 |
| 5. Y Pwyllgor Materion Cymreig | 10 |

1. Cyflwyniad

Dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg a baratowyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) ac mae'n trafod y cyfnod o'r **1^{af} o Ebrill 2017 i'r 31^{ain} o Fawrth 2018**. Mae'n dangos y cynnydd yr ydym wedi ei wneud wrth inni roi ein cynllun ar waith ers i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y JAC: <https://www.judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme> a <https://www.judicialappointments.gov.uk/cynllun-iaith-gymraeg>

Cynhwysid y JAC yn flaenorol yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym wedi datblygu'r cynllun penodol, gwirfoddol hwn er mwyn nodi'n fanylach sut yr ydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n egluro sut y gall ymgeiswyr am swyddi barnwrol gyfathrebu â'r JAC yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Mae'r cynllun yn egluro sut yr ydym yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf Iaith Gymraeg 1993 y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Dylid egluro bod ein hymrwymadau yn berthnasol i'r gweithgareddau recriwtio a'r gwasanaethau hynny yng Nghymru yr ydym yn gallu eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

2. Cefndir

Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol yw'r JAC a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth drwy'r DU yn ei chyfanrwydd. Dewisir ymgeiswyr ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac yr ydym wedi ymrwymo i ddewis ymgeiswyr o rychwant mor eang â phosib o gefndiroedd. Rydym yn gweithio gydag amrediad o sefydliadau i dynnu sylw ymgeiswyr cymwys at swyddi gwag.

Cymeradwyodd Bwrdd Comisiwn y JAC y Cynllun Iaith Gymraeg drafft ym mis Medi 2015, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arno. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y 9^{fed} o Hydref 2015, ac fe'i cyhoeddwyd yn ffurfiol gan Gyn-gadeirydd y JAC, Christopher Stephens a Chomisiynydd y JAC gyda chyfrifoldeb dros faterion Gymreig, Yr Athro Noel Lloyd, yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith yn 2015. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i Gynllun Iaith Gymraeg penodol ar gyfer y JAC. Roedd sawl ymateb yn cynnig gwelliannau drafftio ac awgrymiadau ar sut y gellid mireinio'r cynllun, ac roedd ymateb y JAC i'r ymgynghoriad yn egluro sut y bu i'r ymatebion gynorthwyo i siapio'r polisi.

3. Recriwtio

Sefydliad a leolir yn Llundain yw'r JAC sydd ag oddeutu 60 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb gweithredol parhaol yng Nghymru. Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn berthnasol i drefn recriwtio staff y JAC gan nad adnabuwyd gofynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar gyfer y staff.

Lle bo medrau yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer penodiad barnwrol, mae dau aelod sy'n siarad Cymraeg ymysg yr aelodau llewg sy'n eistedd ar banelau ymarfer dethol. Bydd aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg, sydd ar gael i'r JAC yn ôl yr angen i eistedd ar banelau dethol, yn ymuno â hwy. Bydd yr Athro Noel Lloyd, sy'n siaradwr Cymraeg, yn sicrhau ansawdd ymarferiadau dethol lle mae gofyn am fedrau yn y Gymraeg.

Cwestiynau meini prawf Cymreig

Mae maen prawf dethol ychwanegol yn berthnasol yn achos swyddi yng Nghymru. Cymeradwywyd y maen prawf gan yr Arglwydd Ganghellor ac mae'n datgan:

“Mae angen i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth, neu'r gallu i gaffael dealltwriaeth, o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn cynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru.”

Lle bo ymgeiswyr wedi ymgeisio am swyddi yng Nghymru, gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarferiad yn ystod y cyfweiliad, ac asesir gwybodaeth ymgeiswyr o faterion Cymreig perthnasol.

Ymarferiadau dethol 2017–18

Mae'r JAC yn adrodd yn flynyddol ar y nifer o ymarferiadau a gwblhawyd mewn blwyddyn.¹ Rhoddwyd y Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ym mis Mai 2016 ac fe'i gweithredwyd mewn perthynas ag ymarferion dethol a gynlluniwyd o hynny ymlaen. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol a gwblhawyd ac yr adroddwyd arnynt o'r **1^{af} o Ebrill 2017 i'r 31^{ain} o Fawrth 2018** ac yn rhoi trosolwg o recriwtio ar gyfer y Farnwriaeth yng Nghymru.

Cwblhawyd ac adroddwyd ar wyth ar hugain o ymarferiadau dethol yn 2017–18. Y maes busnes a'r farnwriaeth sy'n adnabod gofynion iaith Gymraeg y swyddi, ac fe'u hasesir gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Ymysg yr ymarferiadau hyn:

- Roedd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarferiad dethol ar gyfer Barnwr Rhanbarth (Sifil). Profwyd gallu ieithyddol yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi ymgeisio am y swydd lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol, ynghyd â'u gwybodaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Lanswyd ymarferiad cenedlaethol ar yr 20^{fed} o Fehefin 2017 gyda 100.5 swydd i gyd, ac yr oedd un ohonynt yn gofyn am allu i siarad Cymraeg. Roedd 14 o'r ymgeiswyr a ddetholwyd yn llwyddiannus o ran y gofynion gwybodaeth ar gyfer swyddi yng Nghymru, gyda 3 o'r rhai a aseswyd yn addas ar gyfer y swydd a oedd yn gofyn am allu i siarad Cymraeg.

¹ <https://www.judicialappointments.gov.uk/jac-annual-reports>

Mae'r JAC yn parhau i gynnal ymarferiadau dethol lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ofynnol ar gyfer un swydd neu ragor. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r ymarferiadau a oedd â gofyniad mewn perthynas â'r Gymraeg yn cynnwys Dirprwy Farnwr Rhanbarth, Cofiadur, Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon), a Barnwr Cyflogedig Tribiwnlys Cyflogaeth. Rhagwelir y bydd rhagor o swyddi yn y dyfodol agos.

Adnabu'r ymarferiadau dethol a ganlyn swyddi yng Nghymru lle nad oedd gofyn am allu i siarad Cymraeg ond lle profwyd gwybodaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Cofiadur:** Ymarferiad dethol cenedlaethol a lansiwyd ar y 1^{af} o Chwefror 2017 gyda 150 swydd i gyd. Roedd 16 o'r ymgeiswyr a ddetolwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofyniad ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Cylchdaith:** Ymarferiad dethol cenedlaethol a lansiwyd ar y 23^{ain} o Fawrth 2017 gyda 116.5 swydd i gyd. Roedd 10 o'r ymgeiswyr a ddetolwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofyniad ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Cyflogedig Tribiwnlys yr Haen Gyntaf:** Ymarferiad dethol cenedlaethol a lansiwyd ar y 10^{fed} o Fai 2017 gyda 65 swydd i gyd. Roedd 5 o'r ymgeiswyr a ddetolwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofyniad ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Aelodau Cyfreithiol sy'n derbyn tâl o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:** Roedd 4 swydd yn yr ymarferiad dethol a lansiwyd ar y 5^{ed} o Fedi 2017; detholwyd 4 ymgeisydd
- **Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru:** Un swydd. Lansiwyd yr ymarferiad dethol ar yr ail o Dachwedd 2017 a detholwyd un ymgeisydd.

Adnabu'r ymarferiadau dethol canlynol swyddi yng Nghymru lle nad oedd gofyn am allu i siarad Cymraeg, a lle na profwyd gwybodaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Aelod Cyfreithiol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru – Panel Cleifion Cyfyngedig:** Roedd yr ymarferiad dethol a lansiwyd ar y 12^{fed} o Fedi 2017 yn cynnwys 5 swydd. Nid oedd unrhyw ofynion mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd hon yn rôl neilltuol arbenigol, ac roedd y meini prawf dethol ychwanegol yn neilltuol o gyfyng, ac yn rhwystro unrhyw ymgeiswyr nad oedd ganddynt brofiad o weithio fel Cofiadur rhag ymgeisio. Yng ngoleuni safon uchel y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl hon, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru at hynny yn ychwanegu unrhyw werth pellach i'r broses ddetol; detholodd y JAC 5 ymgeisydd.

Mae Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru geisio cymorth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Cynorthwyodd y JAC Lywodraeth Cymru yn yr ymarferiadau a ganlyn:

- **Dirprwy Lywydd Panel Dyfarnu Cymru:** un swydd; lansiwyd yr ymarferiad dethol ar y 5^{ed} o Fedi 2017; detholwyd un ymgeisydd.
- **Llywydd sy'n derbyn tâl i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru:** un swydd; lansiwyd yr ymarferiad dethol ar y 25^{ain} o Ebrill 2017; detholwyd un ymgeisydd.

4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Ymarferiadau dethol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn berthnasol i ymarferiadau dethol sy'n cynnwys swyddi yng Nghymru a gynlluniwyd ym mis Mai 2016 neu ar ôl hynny. Nid yw'r JAC yn defnyddio hysbysebu allanol ond mewn achosion eithriadol. Roedd yr adran ar hysbysebu yn ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd hysbysebu allanol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw hysbysebu allanol ar gyfer ymarferiadau dethol yng Nghymru yn 2017–18.

Yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol am y flwyddyn 2016–17 adroddwyd bod datblygu system TG y JAC wedi'i ohirio o ganlyniad i fethiant TG arwyddocaol ym mis Chwefror 2017, ac y byddai oedi o ran y datblygiad Cymraeg.

Yn ystod y cyfnod 2017–18 cyhoeddwyd cyfieithiadau Cymraeg o ddeunydd ar gyfer ymarferiadau dethol yn yr ymarferiadau a ganlyn:

- 062 Barnwr Rhanbarth Sifil – lansiwyd ar **yr 20^{fed} o Fehefin 2017**
- 071 Aelod Meddygol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n derbyn tâl, Siambr Hawliadau Cymdeithasol – lansiwyd ar **y 3^{ydd} o Awst 2017**
- 058 Aelod Cyfreithiol o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n derbyn tâl – lansiwyd ar **y 5^{ed} o Fedi 2017**
- 077 Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru – lansiwyd ar yr **ail o Dachwedd 2017**
- 055 Aelodau Meddygol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n derbyn tâl, Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl); ac Aelodau Meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru sy'n derbyn tâl – lansiwyd ar y **23^{ain} o Ionawr 2018**
- 090 Dirprwy Farnwr Rhanbarth 2018 – lansiwyd ar y **1^{af} o Fawrth 2018**
- 088 Barnwr Cylchdaith 2018 – lansiwyd ar y **15^{fed} o Fawrth 2018**

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn egluro y byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru yn ddwyieithog ar gyfryngau ar-lein y JAC. Fodd bynnag, roedd 4 ymarferiad dethol gyda swyddi yng Nghymru a lansiwyd heb hysbyseb Cymraeg:

- Barnwr Cyflogedig y Tribiwnlys Haen Gyntaf
- Aelod Cyfreithiol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Panel Cleifion Cyfyngedig)
- Barnwr y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n derbyn tâl
- Aelodau Traenio o Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru sy'n derbyn tâl

Er gwaethaf lansio'r ymarferiadau hyn yn y cyfnod adrodd 2017–18, yr oeddidd wedi dechrau cynllunio'r ymarferiadau yn y cyfnod trosiannol tuag amser cyhoeddi a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y JAC. Yn dilyn rhoi'r cynllun ar waith, mae ein templedau cynllunio yn awr

wedi eu sefydlu'n gadarn. Rhoddir ystyriaeth i baratoi cyfieithiadau Cymraeg yn gynnar yn y broses yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol, pan fydd tîm yr ymarferiad dethol yn paratoi amserlen, ac yn ystod cyfarfodydd adolygu prosiect dilynol.

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2017–18. Ni dderbyniodd y JAC unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru un ymholiad gan ymgeisydd ynghylch gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y JAC mewn perthynas â'r ymarferiad ar gyfer **Dirprwy Lywydd Panel Dyfarnu Cymru sy'n derbyn tâl**, gan ymgeisydd yn yr ymarferiad hwnnw.

Cadarnhaodd y JAC wrth Lywodraeth Cymru nad oedd hysbyseb i'w gyfieithu gan nad oedd yr ymarferiad dethol yn agored ond i aelodau presennol Panel Dyfarnu Cymru. Nid oedd y gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad yn yr ymarferiad a chan hynny, o dan ddarpariaethau Cynllun Iaith Gymraeg y JAC, ni ddarparwyd unrhyw ddeunydd Cymraeg ar gyfer yr ymarferiad dethol. Fe wnaeth y JAC dderbyn a phrosesu ffurflen gais Gymraeg ar gyfer yr ymarferiad dethol hwn, ac ar gais ymgeisydd, cynhaliwyd cyfweiliad yn Gymraeg.

Cynnydd gyferbyn â'r cynllun gweithredu

Bydd y safonau adrodd a sefydlwyd eisoes ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn aros yr un fath yn ystod 2018–19: argaeledd y cynllun, cyngor a chanllawiau, gallu digidol, polisiau newydd a pholisiau a adolygwyd, a monitro ac adolygu.

Nodir y diweddariadau i'r cynllun gweithredu yn ystod 2017–18 mewn **print bras** ar dudalen 9.

| Thema a chyfeirnod | Gweithgaredd | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|--|---|
| Argaeledd | Cyhoeddi'r cynllun ar wefan a mewnrwyd y JAC . | Mawrth 2016. | Cychwyn ymgynghoriad ym mis Hydref 2015 a'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2015. Ymateb gan y JAC ym mis Mawrth 2016 | Cwblhawyd – gohiriwyd y cyhoeddi yn ystod cyfnod cynetholiadol etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, a chyhoeddwyd y cynllun ar y 23 ^{ain} o Fai 2016. |
| Cyngor a chanllawiau | Datblygu canllawiau mewnol i gyd-fynd â pholisi yn cynnwys asesu sgiliau ieithyddol a gwybodaeth o wahaniaeth mewn cyfraith, trefniadau datganoli ac ati. | Cyhoeddi cychwynnol ym mis Mawrth 2016 . Y gwaith o adolygu dogfennau polisi perthnasol yn mynd rhagddo. | Cwblhawyd. Gwaith yn mynd rhagddo. | Cwblhawyd – canllawiau ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn rhoi'r canllawiau ar waith. Darparwyd hyfforddiant ar y Cynllun Iaith Gymraeg i staff newydd ym mis Mehefin 2018. |
| Gallu digidol | Datblygu'r System Recriwtio ar gyfer Penodiadau Barnwrol (JARS) i gynnwys ffurflen gais Gymraeg ar-lein. | Gwaith yn mynd rhagddo. | Gohiriwyd. | Gohiriwyd – mae'r JAC ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad i asesu ei anghenion technolegol yn y dyfodol. |
| Polisiâu newydd a pholisiâu a adolygwyd | Ystyried effaith polisiâu newydd a pholisiâu a adolygwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg. | Gwaith yn mynd rhagddo. | Byddwn yn monitro gweithrediad yn barhaus. | Gwaith yn mynd rhagddo – gall ymgeiswyr yn awr ddarparu unrhyw adran naratif yn y prawf cymhwys yn Gymraeg, ac yna fe'i cyfieithir. |
| Monitro ac adolygu | Paratoi adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i'r Bwrdd Comisiwn a'r Bwrdd Gweithredol; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg | Blynyddol. | | Cwblhawyd – Cyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol am y flwyddyn 2016–17 ym mis Hydref 2017 Cyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol am y flwyddyn 2017–18 ym mis Tachwedd 2018 |

5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Is-bwyllgor o Fwrdd Comisiwn y JAC yw'r Pwyllgor Materion Cymreig. Fe'i cadeirir gan Gomisiynydd y JAC sydd â chyfrifoldeb dros Gymru, Yr Athro Noel Lloyd. Mrs Ustus Philippa Whipple, Comisiynydd JAC (barnwrol), a Martin Forde CF, Comisiynydd JAC (proffesiynol – bargyfreithiwr), oedd aelodau cyntaf y pwyllgor. Ym mis Gorffennaf 2018, cymerodd Brie Stevens-Hoare CF le Martin Forde CF.

Ffurfiwyd y pwyllgor yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y JAC, y Gwir Anrhydeddus Athro yr Arglwydd Ajay Kakkar, ynghyd â'r Athro Noel Lloyd. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Pwyllgor Materion Cymreig ar y 9^{fed} o Fawrth 2017, ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob yn ail mis.

Prif bwrpas y pwyllgor yw monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi i swyddi barnwrol ar draws Cymru a Lloegr, a sicrhau bod y Comisiwn yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Yn ystod y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi:

- Croesawu cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i adolygu'r trefniant rhwng y JAC a Llywodraeth Cymru i gyflenwi ymarferiadau dethol ar gyfer Gweinidogion Cymreig
- Goruchwylio cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol cyntaf y JAC ar ei Gynllun Iaith Gymraeg
- Orlhain datblygiadau Pwyllgor Hyfforddiant Cymru i sicrhau bod y JAC yn profi gwybodaeth o ystyriaethau Cymreig gan ystyried gwaith y Coleg Barnwrol yn ymdrin â goblygiadau hyfforddi deddfwriaeth ddatganoledig
- Monitro cyflenwi ymarferiadau dethol yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi ymateb ar ran y JAC i'r ymgynghoriadau a ganlyn a allai effeithio ar y tirlun cyfreithiol yng Nghymru:

- Ymgynghoriad Cwnsler Cyffredinol Cymru
- Galwad am dystiolaeth gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru